# CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID
# LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL


| | |
|---|---|
| Clerc/ *Clerk* | 26 Stryd Fawr |
| **Caroline Jones** | Bethesda |
| 01248 602131 | Gwynedd |
| cyngorLlanllechid@ogwen.org | LL57 3AE |


**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd ar nos Iau y 13fed o Tachwedd 2025 am 1830yh.**

## 1.Trafodaeth gyda Naomi Jones, Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Cafwyd ddiweddariad gan Naomi

- Bydd Cynllun Partneriaeth Tirwedd y Carneddau yn dod i ben ar 31/3/26 ond bydd y prosiectau yn terfynu yn 31/12/25.
- Rydym yn canolbwyntio ar y prosiectau gwaddol ar hyn o ryd, er mwyn sicrhau bod buddsoddiadau yn cael eu cynnal ac effaith y gwaith yn parhau am nifer o flynyddoedd i ddod.
- Mae Warden Ardal y Carneddau wedi'i benodi am 12 mis, sef Dafydd Eryl.
- Mae cytundeb Abbie Edwards wedi'i ymestyn a bydd yn parhau i gydweithio efo'r Cyngor Cymuned i weithio tuag at sefydlu cymdeithas ddefaid a merlod dros y flwyddyn nesaf.
- Mae arian ar gael i gyfrannu at adfer Fuarth Braich. Cadarnhaodd y Cynghorydd Kevin Williams byddai'n holi am brisiau.
- Mae Anna Pritchard, Glasinfryn wedi'i chomisiynu i greu cyfres o gartheni yn dehongli enwau tirweddol Eryri, gan gynnwys y Carneddau. Bydd yr arddangosfa'n teithio i nifer o leoliadau celfyddydol a hoffem iddi gael ei dangos yn ardal Bethesda. Awgrymwyd Clwb Rygbi Bethesda yn ystod y cyfarfod. Mi wnawn ni ymholiadau efo'r Clwb a gobeithio dangos y gwaith yno at ddiwedd 2026/dechrau 2027.
- Mae Siwan Llynor a Gwion Aled wrthi'n gwblhau'r gwaith ar ffilm i ddehongli stori Mynydd Llanllechid. Trafodwyd cynnal dangosiad o'r ffilm i'r gymuned a byddwn yn trefnu hyn at ddechrau 2026.

## 2. Presennol

**Ward Llanllechid Isaf**
Y Cynghorydd Rhydian Williams
Y Cynghorydd Evan Jones
Y Cynghorydd Robin Williams
Y Cynghorydd Lowri Evans

**Ward Llanllechid Uchaf**
Y Cynghorydd Kevin Williams
Y Cynghorydd Dafydd K Jones

Y Cynghorydd Geraint Hughes

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Y Cadeirydd, Y Cyng. Rhydian Williams.

**3.Ymddiheuriadau**

Y Cynghorydd Wyn Bowen-Harris
Y Cynghorydd Alun Thomas

**4. Cofnodion**

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 9fed o Hydref, 2025.

**5. Materion yn codi o'r cofnodion**

**5.1 Arwyddion Maes y Groes –** Gohebiaeth gan Meirion MacIntyre-Huws, Cyngor Gwynedd. Cafodd yr arwyddion Maes y groes eu dal yn ôl oherwydd bod angen edrych ar nifer o safleoedd eraill. Mae wedi gyrru neges at y Peiriannydd Ardal yn archebu'r arwyddion yn swyddogol. Mae o'n gobeithio byddan nhw'n eu gosod maes o law.

**5.2 Bin Halen Bryn Derwas** – Y Clerc wedi siarad gyda Mr Ian Morgan, Cyngor Gwynedd (11/9/25), mae Cyngor Gwynedd yn asesu ac ail lenwi biniau halen mis yma. Mr Morgan am drefnu symud bin Maes y Groes i Fryn Derwas.

**5.3 Tyllau yn y ffordd a dwr yn codi Lôn Aber Ogwen–** Y Clerc wedi wedi siarad gyda Mr Ian Morgan, Cyngor Gwynedd ar yr (11/9/25). Dim diweddariad, dal ar y rhestr waith.

**5.4 Diffyg biniau ar lwybr beicio Wîg a diffyg bin yn y Gilfan gyferbyn ar yr A55 –** Y Clerc wedi cyfarfod Mr David Charles yn y gilfan ar y 19/9/25.
Nid yw Cyngor Gwynedd yn awyddus i osod bin yn y gilfan ond mae nhw'n agored i drefnu casgliadau sbwriel rheolaidd. Trafodwyd hefyd gosod bin ar lwybr Wig. Disgwylir diweddariad am y trefniadau.

**5.5 Ffens bren ger pont Allt Ty'n Hendre –** Diweddariad gan Mr Ian Morgan, Cyngor Gwynedd ar y (11/9/25), Mae'r gwaith hwn yn parhau i fod ar ei rhaglen,
Y Clerc i anfon antgoffyn i Gyngor Gwynedd pob 3 mis.

**5.6 Terfyn Cyflymder Lon Wig -** Derbynwyd ymateb gan Sian Gwenllian MS/AS, gyda ymateb Cyngor Gwynedd fel atodiad. (Gohebiaeth eitem 12)**.** Er nad oes bwriad i ostwng y terfyn cyflymder, mae Cyngor Gwynedd yn awyddus i edrych ar ffyrdd eraill i wella diogelwch y ffordd drwy ystyried dynodi'r ffordd hon yn 'Lôn Dawel', ac y byddent yn trafod hynny gyda'r Cyngor Cymuned. Nod Lonydd Tawel yw hyrwyddo defnydd mwy diogel o ffyrdd gwledig trwy annog gyrru ystyriol a chodi ymwybyddiaeth o'i ddefnydd gan gerddwyr, beicwyr a marchogion ceffylau. Dim diweddariad. Y Clerc i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd.

**5.7** Sedd Wag Llanllechid Uchaf – dim diweddariad.

**5.8 Wern bach –** Diweddariad gan Mr Ian Morgan, Cyngor Gwynedd ar yr (11/9/25) Mae'r ffordd yn un sydd ar lwybr graeanu â blaenoriaeth, felly bydd dim gwaith yn cael ei gynnal nes bydd y gaeaf dros ben.

**5.9 Arwydd Llwybr Tanybwlch –** Gohebiaeth gan Mr Robert Jones, Cyngor Gwynedd. Mae wedi ychwnageu y safle yma at y rhaglen arwyddo. Am rhoi arwydd ar ddechrau y ffordd/llwybr I fynu y trac, yn y gobaith fydd hyn yn gadarnhad i gerddwyr fod mynediad cyhoeddus yma. Gobeithio gwneud y gwaith yn fuan, os yw y cyllid yn caniatau.

**5.10 Lôn Goed –** Lôn wedi culhau a drain wedi gordyfu – Y Clerc wedi adrodd at Gyngor Gwynedd, a'r ymateb yw fod Swyddog o'r Adran Briffyrdd wedi bod allan yn asesu'r broblem. Nid yw'r mater yn cael ei ystyried fel un brys, ond mae trefniadau mewn lle i wneud y gwaith fel rhan o'n rhaglen waith rhaglenedig.
Y Clerc i ail gysylltu efo Cyngor Gwynedd yn pwysleisio'r diffyg cynnal a chadw o fewn y plwyf, er gwaethaf adroddiadau'n cael eu gwneud.

**6. Adroddiad Cyngor Sir, Y Cyng Dafydd Meurig.**
Dim adroddiad.

**7. Taliadau**

Awdurdodwyd y canlynol;

| | | |
|---|---|---|
| Tanks for everything | Tanc ar gyfer y Cae Peldroed | £947.94 |
| Farmcare | Golau Solar y Cae Peldroed | £1648.50 |
| Partneriaeth Ogwen | Gwasanaeth Clercio | £5211.44 |
| Partneriaeth Ogwen | Cyfraniad Llyfrgell Cymunedol | £506.57 |
| David Williams | Torri Mynwent | £384.00 |
| | | |
| Cyfrif Mynydd | | |
| Idris Morris | Bugail Mynydd 2025 | £3000 |

**8. Y Mynydd**

**8.1 Cwt Dafydd Ross** - Y plac wedi ei chwblhau. Penderfynwyd ddefnyddio rhodd Dragon's back i dalu am y plac. Y Cyng Robin Williams wedi trefnu cael ysgythru y llechen. Bydd angen trefnu gosod ar y cwt.

**9. Cae Peldroed/Cae Chwarae Talybont**

- Y Clerc wedi cysylltu gyda Mr Llifon Foulkes, Cyngor Gwynedd am feinciau i'r cae chwarae. Mae'r meinciau ar gael i'w casglu.
- Grant y loteri fydd y cam nesaf. Y Cyng Evan Jones wedi cyfarfod a Stephen Morgan, Cronfa Cymunedol y Loteri Genedlaethol. Mae wedi awgrymu llunio holiadur er mwyn i ni allu dangos tystiolaeth o flaenoriaethau'r gymuned. Hefyd y pwysigrwydd o gael gwirfoddolwyr i gymryd rhan.

- Y Cyng Evan Jones am drefnu cyfarfod pellach ym Mis Ionawr unwaith y bydd yr holl wybodaeth wedi'i chasglu.
- Cyfarfod cyhoeddus wedi ei drefnu i gyflwyno y cynllun Cae Peldroed a diweddaru am y sefyllfa grantiau. Tachwedd 20fed. Y Clerc i baratoi eitemau ar gyfer y cyfarfod.
- Poster wedi ei rannu yn y gymuned gan gynnwys QR code i'r holiadur
- Y Clerc i brintio'r holiadur i'w rhannu o gwmpas y pentref.
- Elen Williams artist lleol, yn trefnu cystadleuaeth i blant blwyddyn 5 a 6 Ysgolion Llanllechid a Llandygai i lunio darlun i'w pheintio ar ochr y cwt offer. Y Cynghorwyr yn cytuno taleb £50 i'r ennillydd.

**10. Gohebiaeth**

**10.1 Llwybr Llechi Eryri –** Gohebiaeth gan ymddiriedolwr y llwybr yn gofyn am gefnogaeth cynghorau cymuned yn eu nod i droi y llwybr yn un genedlaethol. Y Clerc i ail rannu y gohebiaeth.

**11. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr**

Y Cyng Robin Williams wedi mynychu cyfarfod misol Cyngor Cymuned Bethesda. Roedd Mr Sean Taylor yn y cyfarfod. Cafwyd grynodeb o'r cyfarfod gan Y Cyng Robin Williams. Y Clerc i wahodd Mr Sean Taylor i gyfarfod Cyngor Cymuned Llanllechid yn y flwyddyn newydd.

**12. Ceisiadau a phenderfyniadau Cynllunio**

**C24/1128/21/CC**
Ogwen Bank, Bethesda
Cais i ymgymryd â gwaith i goed sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed
**Penderfyniad** Ar y gweill

Trafodwyd y cais a phenderfynwyd gwrthwynebu. Y Cyng Robin Williams am ddrafftio'r gwrthwynebiad.

**Ceisiadau Newydd**

Dim

**13. Materion Brys/Eraill**

- Arwydd Llanllechid wrth Fferm Bryneithin wedi torri
- Pafin o Gypsy Corner i Tai'n Lon yn berygl gyda dail a gordyfiant.

**Diweddariad Mis Hydref**

- Ms Liz Pritchard, trigolyn Talybont - Coeden wedi gor dyfu wrth y cae peldroed.- Y Cyng Rhydian Williams wedi cyfarfod Ms Pritchard. Y Clerc i gael amcanbris i docio y goeden.
- Arwydd siop Llanllechid wedi ei gamsillafu – Wedi ei newid
- Twll yn y ffordd wrth eglwys Llan a Pont Llan – Wedi ei thrwsio
- Toriant rhan isaf o Fynwent Llan wedi ei gwblhau.

**14. Adroddiad Llais Ogwan**

- Cafwyd diweddariad gan Naomi.
- Mae'r Cyngor Cymuned yn siomedig ynghylch y diffyg cynnal a chadw gan Gyngor Gwynedd o'r gordyfiant gwrychoedd
- Nadolig llawen i bawb a blwyddyn newydd dda!
- Cyfarfod Cae cymuned Talybont